OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 529 (Cy. 124)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *21 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd a cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 a deuant i rym ar 22 Mai 2020.

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)).

(2) Yn rheoliad 3, ym mharagraff (1)(b), yn lle'r geiriau o "diwrnod" hyd at y diwedd rhodder "y cynharaf o'r canlynol—

(i) dirymu'r ddarpariaeth sy'n gosod y gofyniad neu'r cyfyngiad, neu

(ii) pan ddaw'r Rheoliadau hyn i ben o dan reoliad 15."

(3) Yn rheoliad 13, ym mharagraff (8), yn lle ", swm y gosb benodedig yw £120 ac nid yw paragraff (7) yn gymwys" rhodder

"—

(a) nid yw paragraff (7) yn gymwys, a

(b) rhaid i'r swm a bennir fel y gosb benodedig fod—

(i) yn £120 yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(ii) yn £240 yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iii) yn £480 achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(iv) yn £960 yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;

(v) yn £1920 yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig olynol."

*Mark Drakeford*
20 Mai 2020 — Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud dau ddiwygiad i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae paragraff (3) yn diwygio rheoliad 13 o'r prif Reoliadau i gynyddu swm y gosb benodedig am dorri'r Rheoliadau dro ar ôl tro, hyd at uchafswm o £1920. Mae'r cosbau uwch yn gymwys i unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir ar 22 Mai 2020 neu ar ôl hynny. Wrth bennu sawl hysbysiad y mae person wedi ei dderbyn at ddibenion cyfrifo swm cosb benodedig, caiff hysbysiadau a dderbyniodd y person hwnnw cyn 22 Mai eu cyfrif.

Mae paragraff (2) yn gwneud mân ddiwygiad i reoliad 3 o'r prif Reoliadau o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed i'r rheoliad hwnnw gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.